Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Mentor Sir Gar

**£24,000 pro rata**

**16 awr yr wythnos, Contract Cyfnod Penodol hyd at 31 Rhagfyr 2025**

**Gweithio o gartref/swyddfa a safleoedd coetir ledled Sir Gar.**

Mae prosiect AnTir newydd Tir Coed yn mynd i'r afael â newid hinsawdd, anghydraddoldebau iechyd a chyfoeth a cholli bioamrywiaeth trwy ymgysylltu â phobl o gymunedau gwledig Canolbarth a De-orllewin Cymru yn y byd natur o'u cwmpas. Mae AnTir yn ehangu darpariaeth coetir Tir Coed i gynnwys tyfu bwyd sy'n gyfeillgar i natur, arferion tir adfywiol a thechnegau megis adfer perthi, dolydd neu berllan, a hyd yn oed mwy o grefftau treftadaeth.

Rydym yn gweithio i fodel dilyniant sefydledig, sy'n galluogi pobl i ddatblygu sgiliau ymarferol sy'n ymwneud â'r tir a'u cefnogi i symud ymlaen i ymgysylltu economaidd neu gymuned bellach, tra'n gwella safleoedd ar gyfer bioamrywiaeth a mynediad i bawb.

Mae Tir Coed yn chwilio am unigolyn trugarog, cyfeillgar a brwdfrydig sydd wrth ei fodd/bodd yn cysylltu pobl â'r amgylchedd naturiol, â'u cymuned ac â'u potensial.

Bydd deiliad y swydd yn ymuno â thîm medrus a brwdfrydig o dri yn Sir Gar, a thîm ehangach o 24.

Ar gyfer pob un o'r swyddi, byddai sgiliau iaith Gymraeg yn fantais, yn ogystal â phrofiad a gwybodaeth flaenoral am yr ardal leol. Oherwydd natur wledig yr ardal, bydd angen ddefnydd o gerbyd a ellir cael ei ddefnyddio at bwrpas gwaith. Bydd angen gwiriad DBS trylwyr ar unrhyw un a gynigir y swydd iddynt.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.tircoed.org.uk

Rhestr lawn o weithgareddau: http://tircoed.org.uk/what-we-do

Fideo Gweithio gyda Thir Coed: https://www.youtube.com/watch?v=8QQ26FUtUwc

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon, nodwch y broses a ganlyn os gwelwch yn dda:

**Ymgeisio**: Anfonwch lythyr eglurhaol (1 dudalen A4) yn manylu sut yr ydych yn cyflawni'r meini prawf gofynnol a manteisiol, ynghyd â CV byr, i projectmanager@tircoed.org.uk.

**Dyddiad cau:** dydd Sul 29ain Mehefin 5pm

**Dyddiadau cyfweld**: 28il Gorffennaf 2025

**Manylion y swydd**:

Bydd Mentor Sir Gar yn gweithio'n agos â buddiolwyr y cyrsiau hyfforddi i ddatblygu hyder, i edrych ar gynlluniau tymor hirach ac i roi cymorth a chyngor unigol am gyfleoedd yn y sectorau amgylcheddol/ar y tir. Mae Mentoriaid yn ymchwilio, yn datblygu ac yun rhannu cyfleoedd lleoli ar gyfer buddiolwyr ac yn datblygu cysylltiadau agos ag asiantaethau atgyfeirio a sefydliadau eraill sy'n cynnig cymorth, i sicrhau bod pob unigolyn yn derbyn y cyngor a'r hyfforddiant gorau ar gyfer y cynlluniau sydd ganddynt at y dyfodol.  Yn benodol, maen nhw yn:

1) Helpu i ddarparu cyrsiau hyfforddi, diwrnodau gweithgareddau wedi'u teilwra'n benodol a gweithgareddau hyfforddi i hybu datblygiad mewn safleoedd coetir yn eu sir.
2) Helpu i benodi cyfranogwyr addas ar gyfer cyrsiau hyfforddi.
3) Cynhyrchu cynlluniau gweithredu unigol gyda chyfranogwyr y cwrs a monitro cynnydd.
4) Adeiladu rhwydwaith o gyfleoedd i gyfranogwyr yn y sector awyr agored sy'n adlewyrchu ystod a dyfnder eu dyheadau, gan gynnwys cyfeirio a chefnogi cyfranogwyr i ddefnyddio gwasanaethau datblygu eraill pan fo'r angen.
5) Gweithio'n uniongyrchol â chyfranogwyr i gefnogi eu taith mewn bywyd gyda Thir Coed, gan gynnwys sicrhau lle mewn sesiynau hyfforddi, datblygu eu hyder yn eu galluoedd, a helpu i gwblhau gwaith papur megis ffurflenni hunangyflogaeth neu ffurflenni cais am hyfforddiant.
6) Gweithio gyda'r rhwydwaith lleol o asiantaethau cyfeirio, cyflogwyr, addysgwyr, perchnogion tir a phartneriaid i ganfod a chefnogi cyfleoedd i gyfranogwyr.
7) Helpu i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn yn ystod y gweithgareddau.
8) Casglu data monitro a'i fewnbynnu i systemau gweinyddol.
9) Cynhyrchu adroddiadau yn manylu ar y gefnogaeth a ddarparwyd a chanlyniadau cyfranogwyr.
10) Cyfrannu at adroddiadau chwarterol gan y Cydlynydd ar gweithgareddau ar y safle
11) Mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd yn Aberystwyth a Sir Ceredigion.
12) Adrodd i'r Cydlynydd y Sir a chydlynu gweithgareddau'n rhagweithiol gyda'r Cydlynydd, gan gefnogi a helpu â gwybodaeth fel y bo'r gofyn.

## CYMWYSTERAU A PHROFIAD:

Mae'r galluoedd a ganlyn yn

### HANFODOL:

- Y gallu i drefnu a rheoli amser yn effeithiol, cyflawni erbyn y dyddiadau cwblhau lle bo raid
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac yn drefnus
- Y gallu i weithio gyda sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol
- Profiad o weithio gydag unigolion neu grwpiau difreintiedig, yn enwedig pobl nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na swydd (NEET)
- Dealltwriaeth gref o'r cyfleoedd posibl sydd ar gael yn y sector awyr agored i gael swydd a symud ymlaen.
- Sgiliau TG cadarn, gan gynnwys profiad o ddefnyddio Microsoft Word, Outlook, Excel, PowerPoint.

### MANTEISIOL:

- Y gallu i sgwrsio'n rhugl yn y Gymraeg ac ysgrifennu yn y Gymraeg i safon uchel
- • Dealltwriaeth o goetiroedd/garddwriaeth a rheoli coetir/tir, y gwaith sy'n gysylltiedig ag arferion rheoli cynaliadwy a manteision cymdeithasol coetiroedd.Profiad blaenorol mewn rôl debyg
- Gwybodaeth am hunangyflogaeth ac am sefydlu a rhedeg busnes bach
- Profiad o weithio ar raglenni a ariennir

### SGILIAU A GALLUOEDD

Mae'r disgrifiadau a ganlyn yn disgrifio'r lefel o berfformiad a fydd yn ofynnol yn dilyn cyfnod arferol o ddysgu a hyfforddi. Bydd y bwrdd yn chwilio am dystiolaeth i ddangos bod gennych y gallu i berfformio ar y lefel hon.

### Mentora:

Bydd deiliad y swydd yn darparu mentora i'r holl gyfranogwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Tir Coed yn eu sir a bydd angen bod mewn cysylltiad â'r Cydlynydd, Arweinwyr Gweithgareddau a sefydliadau cyfeirio mewn perthynas â hynny. Bydd gallu gan y Mentor nid yn unig i weithio gyda thîm Tir Coed ond hefyd i weithio'n effeithiol gyda sefydliadau allanol a darparwyr gwasanaethau, er mwyn sicrhau cyfeiriadau llwyddiannus i'r prosiect, ac o'r prosiect, yn arbennig cyfateb cyfranogwyr unigol gyda chyfleoedd i symud ymlaen a chefnogi cyfranogwyr yn amyneddgar i fanteisio ar y rhain. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn gallu addasu'n gyflym ac yn hyblyg i ddarparu cymorth priodol i amrywiaeth eang o bobl ac amgylcheddau.

**Cyfathrebu:**

Mae'r gallu i gyfathrebu ag ystod eang o fuddiolwyr yn hanfodol. Bydd disgwyl i chi gyfathrebu gyda llawer o wahanol bobl a sefydliadau ar amrywiol lefelau. Mae'n rhaid i chi fod yn bwyllog, cyfeillgar, hawdd siarad â chi, ac yn gallu ymdrin â chyfranogwyr sy'n gallu bod yn gymdeithasol encilgar neu sy'n wynebu heriau iechyd corfforol neu feddyliol. Dylech allu perswadio pobl yn dyner i roi cynnig ar rywbeth sydd y tu hwnt i'r cyffredin iddyn nhw ond gan gofio ar yr un pryd am y rhwystrau sy'n wynebu unigolion difreintiedig a phobl sydd wedi eu hymyleiddio.

Rhaid i chi allu cwblhau gwaith papur yn hyderus i safon uchel a theimlo'n gyfforddus yn cefnogi pobl eraill i fynd i'r afael â phroses neu ffurflen newydd.

**Cynllunio a threfnu gwaith:**

Mae'n rhaid i chi allu eich cymell eich hun, bod yn hynod o drefnus a bod â'r gallu i gynllunio ymhell o flaen llaw a gweithio i ddyddiadau cwblhau penodol. Bydd disgwyl i chi weithio ar nifer o dasgau ar yr un pryd, gan gynnwys recriwtio pobl newydd a gyfeiriwyd atoch a hefyd gefnogi buddiolwyr sydd wedi eu cofrestru ar brosiectau, gwneud ymarferion monitro a hyrwyddo'r prosiect. Felly bydd gennych sgiliau trefnu rhagorol a byddwch yn gallu rhoi diweddariadau rheolaidd am eich gwaith mewn cyfarfodydd tîm misol.

**Arall:**

Rhaid i chi feddu ar drwydded yrru gyfredol a'ch cludiant preifat eich hun, sydd wedi ei yswirio at ddefnydd busnes, oherwydd bydd llawer o'ch gwaith yn cynnwys ymweld â chyfranogwyr, gwneud gweithgareddau ar y safle a mynd i gyfarfodydd. Byddai brwdfrydedd mawr i gefnogi cymunedau yng Nghymru a gwella coetiroedd at ddibenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn fanteisiol.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

**Cyflog**:

Y cyflog yw £24,000 pro rata (£12k y flwyddyn ) ac mae'n cael ei dalu'n fisol fel ôl-daliad.

**Oriau:**

Mae hon yn swydd ran amser wedi ei seilio ar 16 awr yr wythnos. Efallai y gellir cytuno i weithio'n hyblyg drwy drefniant. Os bydd angen bod yn bresennol ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith, yn ychwanegol at yr oriau gwaith arferol, gellir rhoi amser i ffwrdd o'r gwaith yn lle'r oriau hynny. Gallai'r oriau hyn gynyddu dros amser.

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

TIR COED

**Gwyliau Blynyddol:**

Bydd gan ddeiliad y swydd 28 diwrnod o wyliau blynyddol pro rata y flwyddyn gan gynnwys gwyliau banc.

**Cyfnod Prawf:**

Bydd cyfnod prawf o 3 mis ar gyfer y swydd hon, gan ddod i ben gyda chyfarfod gyda rheolwr llinell deiliad y swydd a/neu reolwyr eraill i sicrhau bod deiliad y swydd yn addas i'w swydd.

**Lleoliad:**

Wedi'i leoli o gartref yn Sir Gar ac yn gweithio mewn safleoedd coetir ledled Sir Gar. Bydd gofyn teithio'n rheolaidd i goetiroedd, i asiantaethau cyfeirio ac i leoliadau cyhoeddus i gwrdd â chyfranogwyr.

**Teithio a Chynhaliaeth:**

Pan fydd gofyn i staff deithio ar y ffordd i wneud busnes swyddogol nad yw'n daith i leoliadau gwaith arferol, darperir lwfans milltiredd o 45c y filltir am ddefnyddio cerbyd preifat.

**Buddion:**

Bydd deiliad y swydd yn ymuno â thîm cefnogol sy'n gweithio'n galed, wedi'i ysgogi gan yr awydd i wneud gwahaniaeth i'w cymunedau lleol a bod yn rhan o ateb i rai o'r materion anoddaf y mae ein cymunedau gwledig yn eu hwynebu; newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, effaith diffyg cyswllt â natur, diffyg cyfleoedd economaidd, ac afiechyd.

**Yn Ogystal â hyn, mae Tir Coed yn Cynnig:**

- Cynllun pensiwn
- O leiaf 2 'ddiwrnod i ffwrdd' y flwyddyn yn ymweld â mannau gwyrdd
- Hyfforddiant mewnol ac allanol
- Tîm dwyieithog, cyfeillgar a chefnogol; deinamig a chydweithredol
- Cyfle i ddatblygu'r rôl dros amser
- Gweithio hyblyg ar gael

## "Gadewch i ni fod yn rhan o'r ateb gyda'n gilydd"

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

*Dysgu a Lles yn Awyr Agored*